OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â marwolaeth darparwr gwasanaeth**

**13.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 (sefydliadau ac asiantaethau) mewn cysylltiad â chynnal sefydliad perthnasol neu asiantaeth berthnasol wedi marw cyn y prif ddiwrnod penodedig;

(b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu hysbysu yn ysgrifenedig am y farwolaeth honno; ac

(c) pan fo cynrychiolydd personol, yn union cyn y prif ddiwrnod penodedig, yn cynnal y sefydliad neu'r asiantaeth heb fod wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â'r sefydliad neu'r asiantaeth yn unol â—

(i) rheoliad 43(3) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002;

(ii) rheoliad 39(3) o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002;

(iii) rheoliad 30(3) o Reoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003;

(iv) rheoliad 29(3) o Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) mae hawlogaeth gan y cynrychiolydd personol i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef i'r graddau bod hawlogaeth gan y darparwr cofrestredig, yn union cyn ei farwolaeth, i gynnal y gweithgaredd hwnnw mewn sefydliad cofrestredig neu asiantaeth gofrestredig yn rhinwedd ei gofrestriad o dan Ran 2 o Ddeddf 2000; a

(b) mae gan y person hawlogaeth o'r fath am y cyfnod a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo'r cynrychiolydd personol, cyn y prif ddiwrnod penodedig, wedi cynnal y sefydliad neu'r asiantaeth am lai nag 28 o ddiwrnodau ac nad oes unrhyw estyniad wedi ei ganiatáu i'r cyfnod hwnnw o dan y rheoliadau a bennir ym mharagraff (1)(c), weddill y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau o'r dyddiad pan gymerodd y cynrychiolydd drosodd y gwaith o gynnal y sefydliad neu'r asiantaeth; neu

(b) pan fo'r cynrychiolydd personol, cyn y prif ddiwrnod penodedig, wedi cael estyniad o dan y rheoliadau a bennir ym mharagraff (1)(c), y cyfnod sy'n gorffen ar y dyddiad y daw'r estyniad hwnnw i ben.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3)(a) am gyfnod pellach o'r fath, nad yw'n hwy na blwyddyn, a rhaid iddynt hysbysu'r cynrychiolydd personol am unrhyw benderfyniad o'r fath yn ysgrifenedig.

(5) Rhaid i gynrychiolydd personol y darparwr cofrestredig ymadawedig sicrhau bod person sydd wedi ei benodi i fod â gofal llawnamser o ddydd i ddydd am ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig

yn ystod unrhyw gyfnod y bydd yn cynnal y gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, yn unol â'r erthygl hon, heb fod wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw.